

CYFARPAR SGRIN ARDDANGOS – ASESIAID GORSAF WAITH

Cyfarwyddiadau i'r sawl sy'n defnyddio'r orsaf waith:

Darllenwch bob cwestiwn yn llawn ac ateb drwy roi tic naill ai yn y blwch "Do" "Na" neu "Ddim yn berthnasol" (D/B). Os hoffech ychwanegu unrhyw wybodaeth ychwanegol, rhowch dic yn y blwch "Gwybodaeth Bellach" (GB). Yna defnyddiwch y rhan Gwybodaeth Bellach ar ddiwedd y ddogfen i gofnodi eich pwyntiau. Dylai'r asesiadau a gwblhawyd gael eu hanfon at eich Pennaeth Gwasanaeth a fydd wedyn yn anfon yr asesiad at y Gwasanaeth Personél.

	Do	Na	D/B	GB
<i>Meddalwedd</i>				
A gawsoch chi hyfforddiant digonol ar sut i ddefnyddio'r feddalwedd?				
Ydych chi'n teimlo bod y feddalwedd yn addas ar gyfer y tasgau yr ydych yn eu perfformio?				
<i>Osgo / Ystum Eich Corff</i>				
Ydych chi'n gallu eistedd yn gyfforddus ac a yw'n hawdd i chi newid eich osgo / ystum?				
A ydych yn gallu addasu eich cyfarpar / offer, e.e. eich cadair, eich monitor a'ch desg, er mwyn gallu edrych ar y sgrin yn gyfforddus?				
A yw holl swyddogaethau'r gadair yn gweithio, e.e. uchder y sedd, y tilt cefn, newid yr uchder a throelli?				
A ydych chi'n gallu addasu eich cadair i gefnogi eich cefn?				
A all eich cadair gael ei lleoli yn ddigon agos at eich desg, h.y. nid yw'r breichiau yn eich atal rhag gwneud hyn?				
A yw'r gadair yn sefydlog, e.e. ar sylfaen pum seren?				
A yw eich traed naill ai yn fflat ar y llawr, neu ar droedfainc, fel nad oes gormod o bwysau o'r sedd ar gefn y coesau?				
Wrth fysellu, a yw eich blaenfreichiau fwy neu lai yn lefel gyda'r bysellfwrdd, a'r penelin tua lefel ongl sgwâr?				
Os oes angen, a oes daliwr dogfennau ar gael? (<i>Dewiswch D/B os nad oes ei angen</i>)				
<i>Gorsaf Waith / wyneb gwaith</i>				
A yw eich gorsaf waith wedi'i threfnu fel eich bod yn gweithio'n gyfforddus?				
A oes lle o flaen y bysellfwrdd i gynnal eich dwylo a'ch breichiau?				
A ydych chi'n teimlo bod eich desg yn ddigon mawr ar gyfer yr holl offer a'r gwaith papur angenrheidiol?				
A yw eich gorsaf waith, gan gynnwys y lle sydd o dan y ddesg, yn rhydd rhag rhwystrau a pheryglon?				

	Do	Na	D/B	GB
Sgrin arddangos				
A yw'r wybodaeth a ddangosir ar y sgrin yn glir ac yn hawdd i'w darllen?				
A yw maint y testun yn gyfforddus i'w ddarllen?				
A yw'r sgrin yn lân?				
A ydych yn gallu addasu'r gwrthgyferbyniad (contrast) a'r disgleirdeb? (<i>Gwiriwch hyn plîs</i>)				
A yw'r troi sgrin yn troi o ochr i ochr ac yn gogwyddo?				
A yw'r ddelwedd ar y sgrin yn sefydlog heb fflicr?				
A yw'r sgrin ar yr uchder cywir, h.y. a yw brig y sgrin ar lefel y llygad?				
Bysellwrdd				
A yw'r bysellwrdd yn gweithio'n iawn i gyd ac a yw'r llythrennau, symbolau ac ati yn ddarllenadwy i gyd?				
A yw'r bysellwrdd ar wahân i'r sgrin?				
A yw'n bosib gogwyddo'r bysellwrdd fel ei fod yn gallu cael ei addasu i gwrdd â'ch anghenion?				
A ydych yn teimlo bod gennych dechneg bysellu da? h.y. nid ydych yn taro'r allweddi yn rhy galed, ac nid ydych yn gorffwys yr arddyrnau wrth deipio				
Y llygoden, y bêl-tracio neu ddyfais pwyntio arall (pwyntydd)				
A yw'r llygoden neu'r pwyntydd arall yn gwbl weithredol?				
A yw'r llygoden neu'r pwyntydd arall wedi ei leoli'n agos i chi?				
A yw eich braich wedi ymlacio, eich arddwrn yn syth ac a ydych yn osgoi gorgyrraedd wrth ddefnyddio'r pwyntydd?				
A yw eich blaen fraich a'ch arddwrn yn cael eu cefnogi wrth gael eu defnyddio, e.e. gan y ddesg?				
A yw'r ddyfais yn gweithio'n llyfn ar gyflymder sy'n addas i chi?				
A ydych chi'n gwybod sut i addasu gosodiadau'r meddalwedd mewn perthynas â chyflymder a chywirdeb y pwyntydd?				
Os ydych yn llaw chwith, a yw'r llygoden wedi cael ei haddasu i "glicio ar y dde" ar gyfer y rhan fwyaf o swyddogaethau?				
Amgylchedd				
A yw'r goleuadau'n addas, e.e. heb fod yn rhy lachar nac yn rhy wan?				

	Do	Na	D/B	GB
A yw'r sgrin yn rhydd rhag llewyrch ac adlewyrchiadau?				
A yw wyneb y ddesg yn rhydd rhag ffynonellau adlewyrchu neu lacharedd sy'n eich cythruddo?				
Os oes angen, a ddarperir gorchuddion ffenestr addasadwy?				
A yw'r tymheredd a'r lleithder yn ymddangos fel petai'n gyfforddus?				
A yw'r lefelau sŵn yn gyfforddus?				
Golwg ac iechyd				
A ydych yn ymwybodol bod gennych hawl i gael prawf llygaid am ddim os ydych yn defnyddio offer sgrin arddangos fel rhan reolaidd ac arferol o'ch gwaith? (Gofynnwch i'r Gwasanaeth Personél am fanylion.)				
A yw'r holiadur hwn wedi cwmpasu popeth sy'n ymwneud â defnyddio eich gorsaf waith? Os nad yw, rhwch fanylion ynghylch unrhyw broblemau eraill, e.e. anghysur / annifyrrwch, salwch, yn y rhan isod.				
A ydych wedi darllen y daflen wybodaeth HSE "Gweithio gyda VDUs"? http://www.hse.gov.uk/pubns/indg36.pdf				
Gwybodaeth bellach (defnyddiwch ddalen ychwanegol os oes angen):				

Enw:	Lleoliad yr orsaf waith:
Llofnod:	Dyddiad y cwblhawyd yr asesiad:

Ar gyfer defnydd swyddfa yn unig

Enw'r rheolwr:	
Rhestr o'r gweithrediadau i'w cyflawni:	Rhowch eich llofnod a'r dyddiad cwblhau:

Sylwer. Cyfeiriwch at asesydd CSA hyfforddedig neu arbenigwr iechyd galwedigaethol os yw'r defnyddiwr yn cael problemau iechyd sy'n ymddangos fel petaent yn gysylltiedig â defnyddio'r orsaf waith.